

Cyngor Caerdydd

Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb Adroddiad Blynyddol 2020-22

**This document is available in English. Other formats are available on request.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill ar gael ar gais.**

Cynnwys

Rhagair gan Aelod Cabinet dros Fynd i'r afael â Thlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd	3
Cyflwyniad	4
Cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion cydraddoldeb yn 2020-22:	
1. Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwllch anghydraddoldeb Caerdydd	5
2. Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a thu hwnt	11
3. Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw, yn ymweld neu'n gweithio yn y ddinas	15
4. Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol	19
Atodiad: Adroddiad Amrywiaeth Gweithwyr 2022	23

Rhagair y Cynghorydd Julie Sangani, Aelod Cabinet dros Drechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd

Fel yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am bortffolio Cydraddoldeb Cyngor Caerdydd, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad cynnydd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-24.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi Amcanion Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer y cyfnod hwn ac yn rhoi dadansoddiad o'n camau gweithredu i'w cyflawni. Mae'r adroddiad yma yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Hydref 2020 a Mawrth 2022 a dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf ar ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-24. Ar ddiwedd yr adroddiad hwn, rydym hefyd yn darparu proffil gweithlu'r Cyngor a bylchau cyflog rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd ar gyfer 2022.

Fel arfer, mae ein hadroddiad blynyddol yn darparu diweddariad yn erbyn cyfnod o ddeuddeg mis, fodd bynnag oherwydd pandemig Covid-19, rhoddwyd dosbarthiad arbennig i awdurdodau lleol i oedi cyn cynhyrchu eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol newydd o chwe mis. Dewiswyd achub ar y cyfle i oedi cyn cynhyrchu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol newydd, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020.

Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024 yn dangos tystiolaeth o effaith anghymesur y pandemig ar grwpiau poblogaeth penodol, ac roeddem yn awyddus i sicrhau bod ein hamcanion newydd yn canolbwyntio ar, ac yn ymateb i, effaith y pandemig a'r heriau adfer a gyflwynodd ein dinas. O ganlyniad i hyn, rydym yn adrodd ar gyfnod o 18 mis o'r cyfnod Hydref 2020 tan Ebrill 2022. Diben ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw nodi ein hymrwymiad a'n hamcanion i hyrwyddo cydraddoldeb yn ein dinas, drwy weithredu sy'n canolbwyntio'n fewnol ar ein sefydliad ein hunain a'n rôl fel cyflogwr mawr, ond hefyd yn ystyr ehangach rôl gwneud lleoedd y Cyngor.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, wynebodd gwasanaethau cyhoeddus heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen o ran cefnogi'r ymateb i bandemig COVID-19. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â phandemig a gweithgarwch ôl-bandemig i gyflawni ein hamcanion a'n gwaith ymateb i'r pandemig. Mae cynghorau wedi bod ar flaen y gad o ran ymateb i bandemig, symud yn gyflym a defnyddio dulliau arloesol o gefnogi cymunedau a chadw gwasanaethau i redeg. Mae pandemig Covid-19 wedi amlygu graddau'r anghydraddoldeb strwythurol ledled Caerdydd a Chymru ac mae wedi arwain at ailddyblu ein hymdrechion i fynd i'r afael ag achosion anghydraddoldeb.

Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-24 yn mynd â'n gwaith cydraddoldeb ymhellach, gan integreiddio ein Hamcanion Cydraddoldeb ym mlaenoriaethau'r Cyngor fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol. Mae hyn yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer cyflawni yn y dyfodol a bydd yn sicrhau ffocws di-baid ar y pethau sydd bwysicaf o ran sicrhau newid ystyrion er mwyn creu dinas fwy cyfartal.

Y Cyng Julie Sangani

Aelod Cabinet dros Drechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd (Rhannu Swydd)

Cyflwyniad

Ym mis Medi 2020, cyhoeddodd Cyngor Caerdydd ei Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024, gan nodi pedwar Amcan Cydraddoldeb y bydd yr awdurdod yn mesur ei hun yn eu herbyn dros y pedair blynedd nesaf. Roedd yr amcanion yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd trwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol.

Yr adroddiad hwn ar ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-24 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Hydref 2020 a Mawrth 2022.

Lluniwyd y pedwar Amcan Cydraddoldeb yn dilyn rhaglen o ddigwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd gyda dinasyddion a chynrychiolwyr o grwpiau nodweddion gwarchoddedig. Cafodd y cyfranogwyr gyfle i roi eu barn a helpu i lunio'r amcanion cydraddoldeb a bennwyd gennym ar gyfer y cyfnod o bedair blynedd.

Ein pedwar Amcan Cydraddoldeb yw:

- Amcan 1: Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwch anghydraddoldeb Caerdydd
- Amcan 2: Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a thu hwnt
- Amcan 3: Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw, yn ymweld neu'n gweithio yn y ddinas
- Amcan 4: Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran cyflawni'r amcanion hyn yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fel sy'n ofynnol gan Ddyletswyddau Penodol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ynglwm wrth yr adroddiad hwn mae ein Data Monitro Cydraddoldeb Cyflogeion ar gyfer 2022, sy'n helpu i lywio ein hymdrechion cynrychioliadol yn y gweithlu ac yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd wrth gyflawni'r amcan hwn.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw un o'r mentrau a grybwyllir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, e-bostiwch timcydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcan Cydraddoldeb 1: Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwllch anghydraddoldeb Caerdydd

Tai

Cartrefi Cyngor Newydd

Fe wnaeth ein rhaglen i adeiladu 4,000 o gartrefi dros gyfnod o 10 mlynedd gyflawni 683 o'r 1,000 o gartrefi cyntaf. Mae'r cynnydd yn parhau i ddarparu tai cyngor newydd, carbon isel, ynni effeithlon a fydd yn trawsnewid cymdogaethau ac yn darparu cartrefi o ansawdd.

Cafodd sawl cynllun eu cynllunio a'u cyflwyno i ailddatblygu ac adfywio cymdogaethau lleol:

- Gwnaed gwaith ar gynlluniau adfywio ystadau Llanrhymni Isaf, Roundwood a Pennsylvania i ddarparu amgylcheddau mwy diogel a mwy deniadol, gan wella ansawdd bywyd i drigolion.
- Cafodd ailddatblygiad Maelfa ei gwblhau a thrawsnewid yr ardal drwy gyflwyno canolfan siopa newydd a modern, seilwaith newydd a gwelliannau amgylcheddol a chartrefi newydd fforddiadwy.
- Cymeradwywyd cynllunio ar gyfer cynllun gwerth £85 miliwn i ailddatblygu Trem y Môr. Bydd y cynllun yn darparu mwy na 350 o gartrefi cynaliadwy, carbon isel sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, ar gyfer preswylwyr presennol Trem y Môr .
- Mae ein datblygiad arloesol ar hen safle Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn Nhredelerch, wedi derbyn gwobr fawreddog yn y DU am gynaliadwyedd, gwytnwch yn yr hinsawdd ac ôl troed carbon isel. Mae'r safle yn cynnwys 214 o gartrefi newydd.
- Mae cynlluniau bellach yn cael eu datblygu ar gyfer Lincoln Court yn Llanedern a Trowbridge Green.
- Mae'r buddsoddiad ym mhrosiect adfywio Coridor Busnes De Glan-yr-afon, a gefnogir gan y Rhaglen Fuddsoddi Adfywio a Dargedir gan Lywodraeth Cymru, wedi gwneud cynnydd da. Mae mwy na £5 miliwn wedi'i fuddsoddi yn Stryd Tudor gyda gwelliannau i'r amgylchedd busnes lleol, seilwaith trafndiaeth ac adfywio 30 eiddo busnes.

Strategaeth Tai Pobl Hŷn

Fe wnaethom fwrw ymlaen â'n cynllun adnewyddu ar draws ein cynlluniau Byw yn y Gymuned, gan alluogi byw'n annibynnol a darparu ystod amrywiol o gyfleusterau a gwasanaethau i denantiaid.

Cafodd tri chynllun Byw yn y Gymuned newydd eu cymeradwyo:

- Pentref Lles Llanfihangel;
- Cynllun Byw yn y Gymuned Glan-yr-afon; a
- Chynllun Byw yn y Gymuned Stryd Bute

Mae dyrannu Byw yn y Gymuned yn eistedd o dan Uned Atebion Ailgartrefu, gan ganolbwyntio ar anghenion ailgartrefu achosion ar unwaith neu frys gydag

anghenion cymhleth; cynhaliwyd ymarfer casglu data er mwyn cael adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Rydym wedi defnyddio estyniadau modiwlwr i wella'r gwaith o ddarparu addasiadau, offer a thechnoleg. Trwy ddefnyddio uned a gynhyrchwyd oddi ar y safle ymlaen llaw, gellir rhoi'r uned ar waith heb fawr o darfu, gan alluogi person hŷn i adennill ei hannibyniaeth yn llawer cyflymach na thrwy ddulliau adeiladu traddodiadol.

Ein Gweledigaeth i Roi Diwedd ar Ddigartrefedd

Rydym wedi gweithredu Strategaeth Rhaglen Cefnogi Tai newydd, sy'n darparu un dull strategol o atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth tai. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu gweledigaeth y Cyngor y dylid atal digartrefedd pan fo hynny'n bosibl a dylai unrhyw brofiad o ddigartrefedd fod am gyfnod byr a pheidio â'i ailadrodd. Nod y strategaeth yw sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r gefnogaeth gywir wrth wynebu digartrefedd.

Mae prif elfennau'r strategaeth yn cynnwys:

- Darparu llety brys ychwanegol – mae Tîm Porth y Person Sengl yn monitro llety argyfwng er mwyn sicrhau bod digon o argaeledd ar gael.
- Creu Cynllun Ail-dai Cyflym – mae'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym yn parhau a chaiff ei adolygu cyn i unrhyw newidiadau gael eu hystyried yn unol â'r Polisi Dyraniadau.
- Gostyngiad mewn amser sy'n cael ei dreulio mewn llety dros dro.
- Datblygu cynlluniau prydesu a darpariaeth symud ymlaen gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â'r sector preifat.

Cynnydd a gafwyd:

- Ehangu'r Tîm Amlddisgyblaethol i gynnwys 11 o Weithwyr Allweddol, dau Therapydd Galwedigaethol, tri Gweithiwr Allgymorth Therapiwtig a dau Gwnselydd.
- Sicrhodd y Tîm Amlddisgyblaethol ddwy ffrwd ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion cymhleth (lechydd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau).
- Agorwyd canolfan digartrefedd teuluol yn Briardene.
- Mae cam cyntaf canolfan ddigartref y teulu yn y Gwaith Nwy wedi ei gwblhau.
- Bydd trydedd ganolfan yn cael ei datblygu yn ystod 2022/23 yn Harrison Drive.
- Mae cam 1 cynllun Llys Adams wedi ei gwblhau.

Mae pecyn mwy o gymorth wedi'i deilwra i gartrefu pobl cyn iddyn nhw ddod yn ddigartref bellach yn ei le. I'r rhai sy'n dod yn ddigartref, asesiad o angen ac ymadael yn gyflym o ddigartrefedd a dychwelyd i dai parhaol yw canolbwyt unrhyw ymyrraeth a ddarperir.

Economi gynhwysol a theg

Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith

Ehangwyd ein Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith i ateb y galw cynyddol am gyfleoedd cyflogaeth. Mae Dysgu ar gyfer Gwaith i Oedolion bellach yn cyd-fynd yn

llawn o fewn y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith. Mae hyn yn galluogi gwasanaeth di-dor i'r rhai sy'n chwilio am waith neu i wella eu sgiliau digidol.

Roedd y ddarpariaeth o gyfleoedd cyflogaeth yn cynnwys:

- Creu 183 o gyfleoedd ar gyfer prentisiaid a hyfforddeion sy'n talu yn ystod 2021/22
- Penodi 32 Hyfforddai Corfforaethol Kickstart
- Bron i 4,660 o swyddi cyngor wedi'u llenwi drwy leoliadau o Caerdydd ar Waith

Mae'r ddarpariaeth o gymorth cyflogaeth yn cynnwys:

- 1,241 o gleientiaid wedi'u cefnogi i mewn i waith.
- Cymorth a ddarperir i 266 o gyflogwyr.
- 29 o leoliadau posibl Dechrau Disglair wedi'u sicrhau ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Bu'r Gwasanaeth Cyngor I Mewn i Waith hefyd yn cyflwyno rhaglen sylweddol o ddigwyddiadau allgymorth ac ymgysylltu a oedd yn benodol yn targedu cymunedau lleiafrifoedd ethnig Caerdydd. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi datblygu adnoddau hyfforddi newydd i ymateb i anghenion cymorth cyflogadwyedd penodol rhai ceiswyr gwaith ethnig leiafrifol y mae'r gwasanaeth yn eu cefnogi, megis y rhai sydd wedi cyrraedd y DU yn ddiweddar y mae angen cymorth arnynt i baratoi ar gyfer mynediad i farchnad lafur y DU. Roedd y rhaglen weithgareddau yn cynnwys:

- Cynllunio a darparu pecynnau hyfforddi sector-benodol ar gyfer ceiswyr gwaith o leiafrifoedd ethnig, megis 'Adeiladu Amdani'. Wedi'i gyflwyno ym Mhafiliwn Butetown, mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar y safle, cyfle i ennill cymwysterau sector-benodol a phrofiad gwaith.
- Recriwtio a phenodi Pencampwyr Cymunedol i ledaenu gwybodaeth, hyrwyddo digwyddiadau a chyfleoedd i geiswyr gwaith o leiafrifoedd ethnig, gan ddefnyddio model 'Cenhadon Cymunedol' Ymddiriedolaeth y Tywysog.
- Cynllunio a chyflwyno ymgyrch gyhoeddusrwydd gynhwysfawr i hyrwyddo hyfforddiant, gwirfoddoli, lleoliadau gwaith a chyfleoedd cyflogaeth i geiswyr gwaith o leiafrifoedd ethnig yn ogystal â thargedu pobl ifanc drwy Instagram, Twitter a Facebook.

Bydd y gwaith hwn yn parhau gyda ffocws mewn cymdogaethau gyda phroffil ethnig amrywiol, lle mae'r dystiolaeth yn dangos y bydd cefnogaeth leol bellach yn cefnogi mwy o drigolion i fynd i'r farchnad lafur.

Lle gwych i dyfu fyny i blant o bob cefndir

Addewid Caerdydd a chefnogi pontio pobl ifanc i fyd gwaith

Cafodd partneriaeth Addewid Caerdydd ei hadolygu gan Estyn, fel rhan o arolygiad y Gwasanaeth Addysg. Canmolodd Estyn waith y bartneriaeth, yn enwedig y trefniadau partneriaeth rhwng Datblygu Economaidd ac Addysg. Roedd Estyn yn cydnabod bod y fenter wedi cynhyrchu cryn gyfraniad gan yr ysgolion a chyflogwyr yn ogystal â darparu cyfleoedd addysg gwych, cyflogaeth a hyfforddiant.

Gan barhau â'i waith rhagorol, enillodd Addewid Caerdydd y Wobr Busnes a Phartner yng Ngwobrau Blynyddol Coleg Caerdydd a'r Fro 2021, ar ôl cael ei ddewis gan banel o feirniaid am eu cefnogaeth fel partner hollbwysig.

Mae dros 200 o gyflogwyr wedi ymgysylltu â phartneriaeth Addewid Caerdydd. Ymhlith y prosiectau a gyflwynwyd roedd:

- Ail wythnos rithiol Agor Dy Lygaid ym mis Tachwedd 2021.
- Project Search – interniaethau â chymorth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Parhau i ddatblygu llwyfan ôl-16 'Beth sydd Nesaf.

Plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal

Mae'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol o'r newydd a ddatblygwyd gyda mewnbwn gan yr holl bartneriaid perthnasol bellach ar waith gan roi Plant sy'n Derbyn Gofal yn y ganolfan. Mae'r strategaeth wedi cryfhau rhianta corfforaethol yng Nghaerdydd ac wedi hwyluso gwell gweithio mewn partneriaethau. Mae'r strategaeth yn ei gwneud yn glir bod rhianta corfforaethol yn gyfrifoldeb sy'n rhychwantu swyddogaethau'r awdurdod cyfan a'i bartneriaid.

Mae Dangosfwrdd Data wedi'i gynllunio ar y cyd â Gwasanaethau Plant sy'n darparu adroddiadau chwarterol o amgylch y rhai sy'n gadael gofal. Mae rhaglen hyfforddi orfodol ar gyfer diogelu corfforaethol wedi cael ei datblygu a'i hyrwyddo i'r holl staff.

Mae'r gwaith sy'n cael ei gyflwyno ar y strategaeth o'r newydd wedi gweld gostyngiad yn y bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Iau

Fe wnaethon ni gyflawni cynnydd da wrth ddatblygu gwasanaethau ar gyfer iechyd meddwl a lles pobl ifanc drwy brosesau newydd a nifer o brosiectau:

Mae'r Prosiect Gwydnwch Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc wedi cyflawni'r canlynol:

- Gofynnodd staff addysg am gymorth i 181 o blant a phobl ifanc, a dderbyniodd ymgynghoriad proffesiynol.
- Mae 177 o deuluoedd wedi cael cymorth drwy ymyrraeth uniongyrchol (y Prosiect Gwydnwch a thrwy dimau iechyd eraill).
- Derbyniodd 938 o staff addysg gan gynnwys nyrsys ysgol hyfforddiant.
- Datblygu 45 o adnoddau dwyieithog ar gyfer addysgwyr, rhieni/gofalwyr, a phlant a phobl ifanc.
- 13 Adnoddau YouTube a gynhyrchwyd sydd wedi'u gwyllo 2,468 o weithiau.
- 33% o blant a phobl ifanc a gafodd ymgynghoriad neu luniad ar gyfer y Prosiect Gwydnwch yn dangos thema allweddol o'r cais yn ymwneud â thrawma datblygiadol.

Llwyddodd y Gwasanaeth Ieuenctid i gyflwyno amrywiaeth o brosiectau lles yn dilyn ymgynghoriad â phobl ifanc. Derbyniwyd arian gan y Grant Cymorth Ieuenctid ar y cyd â Gaeaf Llawn Lles, gan arwain at y gweithgareddau canlynol:

- Clwb gemau ar gyfer pobl ifanc sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol i ddatblygu cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymorth a nodwyd drwy'r Gwasanaeth Cyngor i Deuluoedd Cymorth Cynnar. Datblygwyd hwn ym mhob ardal gymdogaeth.
- Rhaglen cryfder mewnol gweithio gyda merched ifanc sy'n hyrwyddo iechyd a lles emosiynol drwy ymarfer corff mewn partneriaeth ag ysgolion a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd.
- Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) cymorth iechyd emosiynol – mentrau a ariennir gan grant unigol sy'n galluogi ymgysylltu'r rhai a nodwyd fel y rhai mwyaf agored i niwed o garfan AHY sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid (lle bo'n briodol), y Gwasanaeth Lles Addysg a darparwyr a gomisiynwyd drwy wasanaethau addysg.
- Fighting Fit – Ymgysylltu â bocsio i gefnogi iechyd emosiynol a chefnogi lles ochr yn ochr ag ysgolion a hosteli.
- 168 o bobl ifanc unigol wedi ymgysylltu.
- 134 o bobl ifanc yn cynnal presenoldeb (chwe sesiwn).
- 3019 o bobl wedi gwella eu hiechyd a'u lles emosiynol
- 119 o bobl ifanc â gwell gwydnwch.
- 89% gyda gwell iechyd a gwydnwch emosiynol.

Ar ôl cwblhau dadansoddiad anghenion hyfforddiant, mae tair sesiwn hyfforddi wedi'u darparu gan Arbenigwyr Iechyd Meddwl Sylfaenol, dwy sy'n archwilio Iechyd Meddwl drwy lens Profiad Niweidiol yn ystod Plentynod (PPN) ac un sesiwn ymarferol sy'n edrych ar weithio gyda gorbryder.

Gweithiodd Rhianta Caerdydd a Gwasanaeth Lles Teuluol Barnardo's gyda'i gilydd i ddylunio a gweithredu proses atgyfeirio ar y cyd sy'n sicrhau gwybodaeth gyson i'r rhieni a'r cyfeirwyr.

Datblygom Wasanaeth Adfer ar y Cyd gyda phartneriaid sy'n cynnwys y Gyfarwyddiaeth Addysg a Bwrdd Iechyd y Brifysgol i ymateb i'r cynnydd yn y galw am gymorth iechyd meddwl a lles ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae ysgolion wedi cyrchu modiwlau hyfforddi a ddarperir drwy ein Gweithwyr Gwydnwch gan gynnwys 'ymyrraeth grŵp' peilot gyda'r ffocws ar Lythrennedd Emosiynol, gyda chyfranogiad pedair Ysgol Uwchradd. Nod y Gweithwyr Gwydnwch yw meithrin gallu ysgolion i fynd i'r afael â'r niferoedd o blant y mae profiadau niweidiol yn ystod plentynod lluosog yn effeithio arnynt.

Cafodd cyfarfodydd rheolaidd hefyd eu cynnal rhwng partneriaid perthnasol i ystyried anghenion dysgwyr unigol.

Mae gwaith yn parhau i ymgorffori cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol pobl ifanc, gyda dull amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n adlewyrchu ethos 'ysgol gyfan'.

Mae'r Arbenigwyr Iechyd Meddwl Sylfaenol (PMHS) sy'n rhan annatod o'r model Cymorth Cynnar wedi gweithio'n dda, gan gynnwys sefydlu llwybrau i gefnogaeth arbenigol i blant a phobl ifanc, lle aseswyd angen.

Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn darparu sgiliau byw'n annibynnol i bobl ifanc, gan gynnwys sesiynau YouTube ynglŷn â bwyta'n iach a bwyta ar gyllideb fel rhan o'r Prosiect Cynnwys Disgyblion.

Mae'r cynnydd hyd yn hyn yn cynnwys:

- 121 o bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni SBA (rhywfaint o ddarpariaeth dysgu cyfunol).
- 103 o bobl wedi gwella eu hiechyd a'u lles emosiynol
- 79 o bobl ifanc â gwell gwydnwch.
- Mae cynnwys digidol wedi cael ei greu i'w gyrraedd gan ddysgwyr a staff.

Bu'r Gwasanaeth Ieuencid a Thai yn gweithio mewn partneriaeth i greu rôl Swyddog Atal Digartrefedd, gweithio un-i-un gyda phobl ifanc wedi'u nodi neu eu cyfeirio drwy borth y bobl ifanc.

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid

Mae Cynllun Gwella Cyfiawnder Ieuencid 'Ein Dyfodol Ni i Gyd' wedi cael llwyddiant mawr gyda'r rhan fwyaf o'r camau wedi'u cwblhau. Mae angen mewnbwn aml-asiantaeth ar unrhyw gamau rhagorol a bydd yn ganolbwynt gwaith parhaus yn y flwyddyn ganlynol.

Yn dilyn archwiliad yn 2020 gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, roedd adborth anffurfiol a gafwyd yn gadarnhaol a chydabuwyd y gwelliannau a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

- Rhwng 2020 a 2022, bu gostyngiad yn nifer y bobl ifanc a ddaeth i'r system cyfiawnder ieuencid am y tro cyntaf o 241 ym mhob 100,000 i 80. Dros yr un cyfnod bu gostyngiad yn y nifer yng Nghymru a Lloegr o 222 i 167.
- Mae'r gyfradd aildroseddu yn y ddinas wedi gostwng o 54.4% i 33.3% ac mae bellach yn is na'r gyfradd gyffredinol ar draws Cymru a Lloegr.

Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched

Mewn partneriaeth â Bro Morgannwg dechreuodd y gwaith o ddatblygu strategaeth gomisiynu ranbarthol - 'Mae'n Ein Dwylo Ni'. Mae'r strategaeth yn gosod safonau uchel ar gyfer gwasanaethau sy'n ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Mae'r strategaeth yn rhoi ffocws cryf ar atal fel y gall menywod sy'n byw, gweithio neu ymweld â'n rhanbarth fyw bywydau cadarnhaol, annibynnol yn rhydd rhag ofn trais neu gam-drin. Mae hyfforddiant VAWDASV gorfodol hefyd wedi'i hyrwyddo i'r holl staff.

Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcan Cydraddoldeb 2: Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a'r tu hwnt

Tasglu Cydraddoldeb Hiliol

Ym mis Gorffennaf 2020, mewn ymateb i fudiad Mae Bywydau Du o Bwys, cytunodd y Cabinet i sefydlu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i weithio gyda'r Cyngor a phartneriaid yn y sector cyhoeddus i nodi cyfleoedd ymarferol am newid a fyddai'n gwella cydraddoldeb hiliol yng Nghaerdydd a dod o hyd i ffyrdd newydd i wella canlyniadau ar gyfer trigolion o leiafrifoedd ethnig.

Wrth baratoi ar gyfer gwaith y Tasglu, lanswyd ymgynghoriad cyhoeddus i ofyn am farn trigolion Caerdydd, yn enwedig y rhai o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig, ar flaenoriaethau strategol y Tasglu. Roedd y Cyngor eisiau deall beth oedd trigolion yn ystyried fel y materion mwyaf, a'r cyfleoedd mwyaf, i drigolion Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Cafodd arolwg dwyieithog, ar-lein ei ddatblygu a'i hyrwyddo ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, drwy sefydliadau partner, a'i anfon at breswylwyr Grangetown a oedd yn aelodau o Banel Dinasyddion y Cyngor. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 10 Hydref 2020. Ar ôl glanhau a dilysu data, i gael gwared ar ymatebion gwag a dyblyg, cafodd 869 o ymatebion eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Gwahoddodd Arweinydd y Cyngor y Cynghorydd Ward yn Butetown, y Cynghorydd Saeed Ebrahim, i gadeirio'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol. Roedd aelodaeth tasglu yn cynnwys unigolion oedd â mewnwelediad a diddordeb mewn hil, ethnigrwydd, a hawliau dynol a chyda'r gallu, profiad, cyfle a dylanwad i wneud newidiadau yn eu sector, diwydiant, a sefydliadau neu sefydliadau. Cafodd aelodau eu dewis yn dilyn proses benodi gyhoeddus oedd yn cael ei hysbysebu'n agored gan y Cyngor.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol ar 1 Rhagfyr 2020 a chadarnhaodd y Cadeirydd a'r aelodaeth eu meysydd gwaith blaenoriaethol. Cafodd y dewis o'r blaenoriaethau hyn ei lywio gan ddadansoddiad cynhwysfawr o'r data anghydraddoldeb ethnig sydd ar gael a barn trigolion y ddinas, fel y'i cipiwyd gan ymgynghoriad y Tasglu. Cadarnhaodd y Tasglu dair thema flaenoriaeth i gael eu harwain a'u datblygu gan y Cyngor. Er bod gan y Cyngor rôl cynnull bwysig ar draws y themâu hyn o waith, cydnabu'r Tasglu fod angen ffocws partneriaeth eang arnynt hefyd a gyrhaeddodd y tu hwnt i'r Cyngor ei hun ac i rannau eraill o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. O'r herwydd, roedd yr is-grwpiau sy'n datblygu'r rhaglen waith yn aml-asiantaeth ac yn elwa o arbenigedd ehangach o'r ddinas a thu hwnt:

- A) Cyflogaeth a Gweithlu Cynrychioliadol
- B) Addysg a Phobl Ifanc
- C) Llais y Dinesydd

Wrth ymateb i farn trigolion o fewn yr ymgynghoriad y dylai meysydd pellach o ffocws y Tasglu gynnwys lechyd a Chyfiawnder Troseddol, ceisiodd y Tasglu gydwethio pellach Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Heddlu'r De a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd i greu a bwrw 'mlaen â rhaglen waith yn erbyn y ddwy thema ychwanegol yma. Roedd y cyrff a'r partneriaethau sector

cyhoeddus hyn yn cynnig eu cefnogaeth i amcanion Rhaglen y Tasglu ac fe grëwyd dau is-grŵp thematig arall:

- D) Iechyd
- E) Cyfiawnder Troseddol

Fe wnaeth y Tasglu lunio adroddiad ym mis Mawrth 2022, a wnaeth 28 o argymhellion ar draws y pum thema, a derbyniwyd pob un ohonynt gan Gyngor Caerdydd a, lle y bo'n briodol, ei bartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r argymhellion yn cynnwys:

Cyflogaeth a Gweithlu Cynrychioliadol

- Dod yn un o lofnodwyr Compact Swyddi Cymunedol Caerdydd
- Cynyddu cyfranogiad grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith

Addysg a Phobl Ifanc

- Cefnogi'r gwaith o amrywio'r gweithlu addysgu drwy Raglen 'Camu i Addysgu' ar gyfer cynorthwywyr addysgu

Llais y Dinesydd

- Gwella'r broses o gasglu a dadansoddi data ar gyfranogiad dinasyddion
- Dylai aelodau etholedig Cyngor Caerdydd gefnogi Datganiad Cyngor Amrywiol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gefnogi amrywiaeth mewn democratiaeth a chynrychiolaeth grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y brifddinas

Iechyd

- Gwella cofnodi ethnigrwydd o fewn y system gofal iechyd, ar gyfer cleifion a staff

Cyfiawnder Troseddol

- Datblygu dulliau newydd i gryfhau ymgysylltiad a llais cymunedol yng ngwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Bydd y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol yn cael ei ailymgynnull yn 2023 i ystyried y Cyngor a'i bartneriaid ac adrodd yn ôl.

Dinas sy'n Dda i Blant

Mae Caerdydd yn gwneud cynnydd o ran dod yn 'ddinas sy'n dda i blant' lle mae gan bob plentyn a pherson ifanc gyfle i ffynnu a chyrraedd ei botensial.

Parhaodd gwaith i sicrhau bod ysgolion Caerdydd yn cael eu dynodi fel Ysgolion Parchu Hawliau. Dyfarnwyd statws Ysgolion Parchu Hawliau Efydd i 49 ysgol, dyfarnodd 24 Arian, a 7 wobr Aur.

Buom ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, ysgolion a phartneriaid cymunedol i gyflwyno gweithgareddau sy'n cynnwys 'Gwên o Haf', Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgolion 'Bwyd a Hwyl' (RhCGY) a 'Gaeaf Llawn Lles'.

Bu hefyd yn gweithio ym maes datblygu Prifysgol y Plant yng Nghaerdydd, sy'n annog pobl ifanc 5-14 oed i herio'u hunain, i roi cynnig ar brofiadau newydd, i ddatblygu diddordebau newydd ac i feithrin sgiliau newydd. Bydd yr holl blant sy'n cymryd rhan ym Mhrifysgol y Plant erbyn diwedd eu blwyddyn gyntaf yn cael cyfle i ddysgu llawer o sgiliau newydd a gwella sgiliau presennol. Bydd y prosiect yn para am dair blynedd hyd at Orffennaf 2024.

Mae'r Cyngor wedi cryfhau dylanwad a llais plant a phobl ifanc trwy'r dyhead i fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant UNICEF, gan gynnwys derbyn dros 6,500 o ymatebion i'w arolwg diweddar ar gyfer Dinas sy'n Dda i Blant gyda chyfraddau ymateb yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth ifanc y ddinas, sefydlu panel dinasyddion newydd i bobl ifanc a thrwy raglen ymgysylltu â'r Cyngor leuenticid a grwpiau eraill. Yn y gwaith hwn mae ffocws penodol wedi ei roi ar sicrhau bod amrywiaeth eang lleisiau pobl ifanc yn cael ei glywed.

Gwella cyfranogiad dinesig

Aethom ati i gynnal gweithgarwch cydgysylltiedig i gefnogi'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyflawni Cyfrifiad 2021, gan gynnwys gwaith allgymorth ac ymgysylltu helaeth i sicrhau bod anghenion grwpiau sy'n profi rhwystrau rhag cymryd rhan yn cael eu hadlewyrchu o fewn yr arolwg. Roedd y rhain yn cynnwys cymunedau mudol, cymunedau Asiaidd Du a Lleiafrifoedd Ethnig, y cymunedau digartref a theithwyr.

Er bod y cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol sydd ar waith yn ystod pandemig Covid wedi cael effaith sylweddol ar allu'r Cyngor i gynnal ymgysylltu cymunedol wyneb yn wyneb, parhaodd y Cyngor i weld ymgysylltu uchel gan ddefnyddio arolygon ac ymgynghoriadau ar-lein, gyda dros 62,000 o bobl yn ymateb i arolygon ac ymgynghoriadau yn ystod 2021. Ategwyd y rhain (pan fo'n bosibl) gyda gwaith ymgysylltu mewn cymunedau, cynhaliwyd 37 o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol amrywiol yn ystod 2021/22, gyda 6,465 o bobl yn cymryd rhan.

Mae'r cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol sydd ar waith yn ystod pandemig Covid hefyd wedi effeithio'n sylweddol ar y gallu i gael cyfarfodydd cyngor wyneb yn wyneb, roedden ni'n galluogi dinasyddion i gymryd rhan a gweld cyfarfodydd drwy gyfarfodydd darlledu drwy we-ddarlledu. Yn ystod 2021/22 cynyddodd nifer y cyfarfodydd cyngor a phwyllgorau a ddarlledwyd o 50% a adeiladwyd ar gynnydd tebyg yn ystod 2020/21.

Parhawyd i ganolbwyntio ar wella ein hôl-troed digidol a chyfryngau cymdeithasol fel y brif sianel ar gyfer cyfathrebu i ddinasyddion. Cyflawnwyd hyn trwy ddefnyddio ein gwefan a'n llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Instagram, a Twitter, i gynyddu nifer y dilynwyr sydd gennym ac wrth wneud galluogi ein dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau i dderbyn a rhyngweithio â gwybodaeth a ddarparwn.

Un flaenoriaethau ar gyfer 2023 fydd datblygu dulliau gwell er mwyn sicrhau bod llais grwpiau a glywir yn aml yn cael ei glywed wrth wneud penderfyniadau'r Cyngor, fel rhan o'r Strategaeth Cyfranogiad statudol newydd.

Dinas Cyflog Byw

Fe wnaethon ni barhau i wireddu ein huchelgais o fod Caerdydd yn ddinas cyflog byw. Gwnaethom gynyddu nifer y cyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol yn y ddinas gyda 165 o gyflogwyr bellach yn cael eu hachredu fel cyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghaerdydd. Gweithiodd y Cyngor yn llwyddiannus gyda sefydliadau'r trydydd sector a chyflogwyr mawr eraill fel rhan o Bartneriaeth Dinas Cyflog Byw Caerdydd er mwyn sicrhau mwy o swyddi yn y ddinas sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac yn annog cyflogwyr i gael eu hachredu'n Gyflogwyr Cyflog Byw. Mae hyn wedi cyfrannu at y sefyllfa lle mae gan Gaerdydd y cyfrannau isaf o swyddi (11.6%; 24,000 o swyddi) sy'n talu islaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith dinasoedd mawr Cymru a Lloegr yn 2021, o'i chymharu ag 20.7% (42,000 o swyddi) yn 2017. Mae Prifysgol Caerdydd wedi cyfrifo bod bron i £50 miliwn yn ychwanegol wedi mynd i economi Caerdydd ers 2012 o ganlyniad i'r codiadau hyn.

Prifddinas gydlynol a chroesawgar

Mae'r Cyngor wedi parhau i helpu dinasyddion yr UE i wneud cais i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS), gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal ac oedolion sy'n agored i niwed. Cynhaliwyd rhaglen o ymgysylltu a chymorth digidol i gael mynediad i'r cynllun ar-lein o ganlyniad i'r cymorth, gwnaed 21,200 o geisiadau i'r cynllun ar 31 Mawrth 2021.

Buom yn ymateb i argyfwng ffoaduriaid Affganistan trwy ddarparu cefnogaeth gynhwysfawr o dderbynfeydd i faciwîs Afghanistan yn yr hydref a'r gaeaf 2021/22 gan gynnwys mynediad at ddangosiadau iechyd, dosbarthiadau addysg, Cymraeg a Saesneg, cefnogaeth gyflogaeth ac ystod o weithgareddau a ddarperir gan staff partneriaeth a gwirfoddolwyr.

Rydym hefyd wedi darparu cymorth addysgol hynod effeithiol i ffoaduriaid gan gynnwys cyfleoedd dysgu a darparu lleoedd mewn ysgolion ar gyfer plant sydd newydd gyrraedd. Amlygwyd y maes hwn fel maes arfer da yn Adroddiad Arolwg Estyn ym mis Chwefror 2022.

Gwnaethom barhau i weithredu Strategaeth Genedlaethol Cydlyniant Cymunedol a chynllun cyflawni Llywodraeth Cymru, gan gynnwys amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi trigolion o wahanol gefndiroedd i gyfarfod drwy chwaraeon, diwylliant a'r celfyddydau a hyrwyddo lles grwpiau ymylol fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Sicrhau a monitro ein cynnydd

Fe wnaethom ddatblygu dangosfwrdd data cydraddoldeb a sicrhau bod hyn ar gael i'r holl staff sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi. Fe wnaethom hyn drwy adolygu data a gasglwn ar hyn o bryd, data sydd ar gael ar sail Cymru gyfan a data sydd ar gael ledled y DU. Bydd y data hwn yn galluogi ein swyddogion polisi i sicrhau y gall ein holl ddatblygiad polisi yn y dyfodol gael ei arwain gan dystiolaeth.

Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcan Cydraddoldeb 3: Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw, yn ymweld neu'n gweithio yn y ddinas

Dinas gysylltiedig a hygyrch drwy ddylunio

Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Newydd yn helpu i lunio Caerdydd am y 15 mlynedd nesaf hyd at 2036, gan sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn ar yr adeg iawn, gan ddod â buddion i gymunedau a'r economi yn ogystal â nodi pa ardaloedd y mae angen eu diogelu. Mae'r gwaith o ddatblygu CDLI newydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys ymgynghoriadau eang ar weledigaeth ac amcanion y CDLI yn ogystal â'r Dewisiadau Twf Strategol. Er gwaethaf gofynion cadw pellter cymdeithasol oherwydd Covid-19 yn arwain at gyfyngiadau sylweddol ar waith ymgysylltu, mae gweithgarwch wedi'i dargedu gyda grwpiau allweddol wedi cael ei wneud ledled y ddinas a bydd hyn yn parhau trwy gydol y broses.

Trawsnewid Canol y Ddinas

Mae'r gwaith parhaus i drawsnewid canol y ddinas wedi creu ardal gyhoeddus fwy hygyrch a deniadol, gan gydbwysu busnes, iechyd y cyhoedd, lles ac anghenion ecolegol. Dim ond un rhan o nodau ehangach y Cyngor yw ailagor Cwr y Gamlas. Mae Cam 1 y cynllun bellach ar y safle, gyda'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ar ddechrau 2023.

Lansiwyd Strategaeth Adfer ac Adnewyddu ym mis Mai 2021 a nododd gyfres o ymyriadau a roddwyd ar waith i gefnogi busnesau a gwneud canol y ddinas yn lle mwy diogel a mwy deniadol i drigolion ac ymwelwyr gael mynediad.

Mae grŵp cydraddoldeb mynediad wedi cael ei sefydlu ac mae'n cwrdd yn rheolaidd i drafod materion mynediad o fewn y ddinas.

Gwneud ein mannau cyhoeddus yn fwy hygyrch i bobl hŷn

Dinas sy'n Deall Dementia

Cafodd gwefan Caerdydd sy'n Deall Dementia ei lansio ym mis Hydref 2020. Mae'r wefan yn cyfeirio pobl sydd wedi eu heffeithio gan ddementia at wasanaethau priodol, gwybodaeth ac yn cynnig dros 60 o ddiwyddiadau digidol bob mis all eu helpu i fyw'n well gyda'r clefyd.

Mae dros 3,000 o aelodau yn Ffrindiau Dementia yn defnyddio'r modiwl hyfforddi mewnol a grëwyd gyda Phartneriaethau Rhaglen y Gymdeithas Alzheimer - gyda phob aelod o staff yn ymrwmo i gyflawni gweithred sy'n deall dementia.

Fe wnaethon ni barhau i weithio'n effeithiol a chydweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys dosbarthu 'Darllen Amdanaf Fi' i bob un preswlydd mewn cartref gofal o fewn Caerdydd. Crëwyd 'Darllenwch Amdanaf I' gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel ffordd syml ac effeithiol newydd o gynorthwyo pobl â dementia

neu nam gwybyddol sy'n derbyn gofal meddygol. Gan ddarparu gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'n caniatáu i'r holl staff y maent yn dod i gysylltiad â hwy gael gwell dealltwriaeth o'r claf, heb fod angen ailadrodd eu stori bersonol. Mae hyn yn helpu i sicrhau parhad gofal iddynt drwy gydol eu taith.

Strategaeth Heneiddio'n Dda

Fe wnaethon ni lunio Strategaeth Heneiddio'n Dda Caerdydd 2022-27: Cafodd y strategaeth newydd hon ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Ionawr 2022. Mae'n nodi cyfres o gynigion gyda ffocws ar sut gall gwasanaethau gydweithio'n agos i gefnogi pobl hŷn i gadw'n heini ac yn gysylltiedig ac i fyw'n annibynnol gartref trwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau, gofal cynaliadwy o ansawdd uchel a moderneiddio'r gwasanaethau presennol.

Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn

Ym mis Mawrth 2022, ymunodd Caerdydd â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn. Y ddinas yw aelod Cymreig cyntaf y Rhwydwaith a sefydlwyd yn 2010 i gysylltu dinasoedd, cymunedau a sefydliadau ledled y byd gyda'r weledigaeth gyffredin o wneud eu cymunedau'n hygyrch a'n lle gwych i dyfu'n hŷn. Mae statws aelodaeth newydd y ddinas yn ganlyniad i gydweithio helaeth â rhanddeiliaid ledled y ddinas gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sefydliadau addysgol a sefydliadau'r trydydd sector.

Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd

Gwnaethom barhau â'n Rhaglen Hybiau Cymunedol gyda'r nod o alluogi trigolion Caerdydd i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn eu cymunedau lleol eu hunain.

Mae hybiau'n darparu gwasanaethau cydgysylltiedig a chydweithio agosach rhwng Cyngor Caerdydd a'i bartneriaid, gyda phob Hyb yn darparu amrywiaeth o wasanaethau craidd y Cyngor a nifer o wasanaethau arbenigol y Cyngor a phartneriaid yng nghanol ardaloedd cymunedol sy'n galluogi defnyddwyr gwasanaeth i gael mwy o fynediad at wasanaethau.

- Mae Hwb Creadigol Butetown wedi cael ei agor i gefnogi pobl ifanc i fynd i'r sector creadigol.
- Mae Hybiau Cymunedol yn yr Eglwys Newydd a Rhydypennau wedi cael eu hadnewyddu, gan gyflwyno gwasanaethau ychwanegol a gwell ar gyfer y cymunedau hyn.
- Mae prosiect partneriaeth Ysbyty Brenhinol Caerdydd (YBC) sy'n darparu cyfleusterau iechyd a lles i drigolion de a dwyrain Caerdydd wedi'i gwblhau. Mae cynnydd hefyd yn cael ei wneud ar Hybiau Iechyd a Lles ar gyfer Maelfa yn Llanedern a Parkview yn Nhrelái mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd. Roedd 97% o'r ymatebwyr mewn arolwg cwsmeriaid diweddar yn cytuno bod y gwasanaethau a ddarperir gan Hybiau'n diwallu eu hanghenion.

- Mae gan y wefan newydd a sefydlwyd i wella mynediad i wasanaethau Hybiau – gan gynnwys Dysgu Oedolion, Gwasanaethau iMewn i Waith a'r Gwasanaeth Cymorth Lles newydd – dros 3,000 o ddefnyddwyr erbyn hyn.

Mynd i'r afael ag Ynysigrwydd Cymdeithasol

Mae amrywiaeth o fentrau wedi'u darparu gan y Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd i fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd ymhlith ein trigolion hŷn gan gynnwys:

- Cynllun ysgrifennu llythyrau rhwng y cenedlaethau rhwng plant o ddwy ysgol gynradd a phreswylwyr mewn tri chartref gofal a ddechreuodd ym mis Mai 2021 yn ystod Wythnos Gweithredu ar Dementia.
- Lansiodd Gwasanaeth Cymorth Lles Caerdydd ym mis Gorffennaf 2021 a'i nod yw cefnogi unigolion sy'n teimlo eu bod wedi'u hynysu'n gymdeithasol trwy ddarparu cymorth byrdymor o gymorth ysgafn er mwyn cael mynd i ddiwyddiadau yn y gymuned i fentora dwys un i un.
- Mae hybiau'n parhau i gynnig llawer o weithgareddau a dosbarthiadau ar gyfer pobl hŷn megis pêl-droed cerdded, tai chi, clybiau garddio, canu, gwau a sgwrsio, a digwyddiadau ffrindiau a chymdogion.

Gwella Ansawdd Aer

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod llygredd nitrogen deuocsid (NO₂) ac ansawdd aer gwael, yn arwain at ddinasyddion sy'n dioddef afiechyd. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod trigolion yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd yn dioddef o lefelau uwch o lygredd aer, a bod hyn yn effeithio'n anghymesur ar drigolion o gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig.

Fel rhan o'r Cynllun Aer Glân, mae 36 o fysis trydan wedi'u cyflwyno i'r ddinas ac mae'r Rhaglen Ôl-osod Bysus wedi cael ei gwblhau i osod technoleg mewn 49 o fysis sy'n lleihau allyriadau Nitrogen Deuocsid (NO₂) gan 90%. Mae'r Cynllun Prydles Tacsî hefyd wedi'i lansio. O ganlyniad, cafwyd gwelliannau sylweddol yn y ddinas o ran ei pherfformiad ansawdd aer - yn dilyn creu parth cerddwyr ac yna rhoi mynediad cyfyngedig i Stryd y Castell (a arferai fod y stryd fwyaf llygredig yng Nghaerdydd), bellach yn cydymffurfio â deddfwriaeth ynghylch llygredd NO₂. Yn ogystal, mae crynodiadau NO₂ mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn llawer is na thargedau mewnol y Cyngor a therfynau cyfreithiol.

Gwella datblygiad polisi lleol ar gyfer dinas decach

Mynediad at wybodaeth

Mae darparu gwybodaeth hygyrch yn helpu i wella mynediad at wasanaethau, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a galluogi pobl i wneud dewisiadau mwy gwybodus am bethau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae darparu gwybodaeth hygyrch yn cynorthwyo cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth, yn cefnogi gweithgarwch ymgysylltu effeithiol, a gall leihau anghydraddoldebau a rhwystrau, gan helpu pobl i gyflawni eu potensial llawn. Yn y cyfnod adrodd hwn, fe wnaethom ddatblygu Polisi Gwybodaeth a Chyfathrebu Hygyrch drafft.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Cyngor Caerdydd yn defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel ffordd o werthuso ein cynigion i weld a oes ganddynt y potensial i effeithio ar bobl yn wahanol a chefnogi ein proses o wneud penderfyniadau.

Eu diben yw nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau presennol neu bosibl i wneud yr hyn a wnawn mor deg â phosibl. Rydym yn darparu rhaglen hyfforddi gadarn, codi ymwybyddiaeth a chyngor 1-2-1 i holl feysydd gwasanaeth y Cyngor i'w chefnogi mewn cynigion sgrinio a chwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ansawdd uchel lle mae eu hangen.

Fe wnaethom ddarparu hyfforddiant ac arweiniad Asesu Effaith Cydraddoldeb drwy gydol y cyfnod adrodd hwn i'n gweithwyr. Mae ein hyfforddiant a'n harweiniad yn ceisio sicrhau bod dadansoddiad cydraddoldeb y Cyngor:

- Yn amserol, yn berthnasol ac yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau.
- Yn arwain at gamau gweithredu a mesurau clir ar gyfer llwyddiant.
- Yn cynnwys methodoleg ar gyfer asesiadau effaith cronol a phennu cyllidebau.
- Yn ystyried grwpiau perthnasol eraill nad ydynt wedi'u diogelu'n benodol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Rhoddodd y Tîm Cydraddoldeb gyngor a chanllawiau hefyd ar AEAau ar gais gan swyddogion ar draws yr holl gyfarwyddiaethau.

Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcan Cydraddoldeb 4: Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol

Ein Strategaeth Gweithlu 2018-21

Cefnogi iechyd a lles cyflogeion

Er mwyn cydnabod y gwaith i greu amgylchedd gweithio cadarnhaol a chynhwysol, roedd y Cyngor yn llwyddiannus yn ei ailasesiad ar gyfer y Safon Arian gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae gan weithwyr y Cyngor fynediad at CareFirst, adnodd cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd sydd ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, mewn cynghorwyr tŷ, Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ac Iechyd Galwedigaethol.

Cafodd gwybodaeth a chylchlythyrau iechyd a lles rheolaidd eu dosbarthu i weithwyr.

Dilyniant hyfforddiant a gyrfa

Comisiynwyd amrywiaeth o becynnau hyfforddiant cydraddoldeb gan Academi Cyngor Caerdydd ac maent ar gael i bob cyflogai. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Iaith Arwyddion Prydain (Lefelau 1 – 2)
- Ymwybyddiaeth Byddardod
- Anabledd a Chydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb
- Hyfforddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Gweithdy Cyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd
- Ymwybyddiaeth Namau ar y Golwg

Fe wnaethom ddatblygu modiwl e-ddysgu rhagfarn ddiarwybod sy'n rhagofyniad gorfodol o'n hyfforddiant Recriwtio a Dethol.

Mae'r holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n rheolaidd a'i werthuso i sicrhau ei fod yn gyfoes ac yn ddefnyddiol i weithwyr.

Cefnogi a Chydweithio gyda'n Rhwydweithiau Cydraddoldeb Gweithwyr

Mae Cyngor Caerdydd yn cefnogi pum rhwydwaith a arweinir gan weithwyr sy'n gwneud cyfraniad hanfodol at hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle. Y rhwydweithiau yw Rhwydwaith Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; Rhwydwaith Anabledd; Rhwydwaith LHDT+; y Rhwydwaith Menywod; a'r Rhwydwaith Gofalwyr.

Mae'r Rhwydweithiau'n darparu adnodd hanfodol a gwerthfawr sy'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Gweithiom gyda'n rhwydweithiau cyflogeion i nodi'r cymorth y mae ei angen ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i wneud cynnydd yn y Cyngor.

Er mwyn codi proffil y rhwydweithiau ar draws y sefydliad, cafodd pob un ei ail-frandio, gyda phob un yn penodi Hyrwyddwyr Uwch Dîm Rheoli a datblygu 'Cyfeillion y Rhwydweithiau'. Yn ogystal, datblygwyd Arolwg Rhwydwaith Gweithwyr ar y Cyd i sefydlu meincnod o aelodaeth, yn ogystal â phrofiadau bywyd gweithwyr.

Cefnogi pobl ifanc i ymuno â gweithlu'r Cyngor

